

Adroddiad i	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Dyddiad	19 Hydref 2026
Swyddog Arweiniol	Amherthnasol
Swyddog Cyswllt	Gwasanaethau Aelodau (members.services@northwalesfire.gov.wales)
Pwnc	Adroddiad y Cadeirydd



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Mae'r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2026.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

ARGYMHELLION

- 3 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

I. nodi'r wybodaeth a roddwyd.

ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

- 4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

GWYBODAETH

- 5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â'r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.
6. Ar 11 Gorffennaf, aeth y Cadeirydd i ddigwyddiad Golchi Ceir Elusennol yng Ngorsaf Dàn Caernarfon.
7. Ar 15 Gorffennaf, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Weithdy Gwireddu Buddion Hwb Awen ym Mhencadlys GTAGC.
8. Ar 30 Gorffennaf, aeth y Cadeirydd i angladd y Rheolwr Gorsaf, Sheryl Teal-Bromley.

9. Ar y 1 Awst, aeth y Cadeirydd i Ddiwrnod Agored yng Ngorsaf Dân Bangor.
10. Ar 19 Awst, bu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar Banel Dyfarnu Gweithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol yn trafod cwyn pensiynau Cam Dau.
11. Ar 20 Awst, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd i Sioe Dinbych a'r Fflint.
12. Ar 3 Medi, bu'r Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân mewn cyfarfod rhithwir gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghyd â Chadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân eraill Cymru.
13. Ar 16 Medi aeth y Dirprwy Gadeirydd i gyfarfod hybrid Comisiwn Tân y Gymdeithas Llywodraeth Leol
14. Ar 16–17 Medi, aeth y Cadeirydd i gynhadledd flynyddol CLILC a gynhaliwyd yn Abertawe.
15. Ar 24 Medi, aeth y Cadeirydd i seremoni wobrwyo flynyddol GTAGC yn Venue Cymru.
16. Ar 29 Medi, bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod Teams gyda Matt Wellington, Dirprwy Gyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Pholisi Tân Llywodraeth Cymru.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Amherthnasol.
Cyllideb	Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth.
Cyfreithiol	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Staffio	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg	Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.
Risgiau	Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad.